PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 49 Rhagfyr 8, 2022 50c.

CRISTNOGAETH – CREFYDD LEIAFRIFOL CYMRU

Am y tro cyntaf ers yr Oesoedd Tywyll rydym ni Gristnogion mewn lleiafrif yng Nghymru, yn ôl data mwyaf diweddar y cyfrifiad a gynhelir bob 10 mlynedd. Ers 2011 fe syrthiodd canran y rhai sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion o 57% i 43.6%. Dim ond yn siroedd Fflint, Conwy ac Ynys Môn y mae Cristnogion yn dal i fod mewn mwyafrif.

Nid yn annisgwyl

Prin fod y gostyngiad sylweddol yma yn annisgwyl, yn ôl y Parchg Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mae'r ffaith bod cymaint o gapeli ac eglwysi wedi cau dros y ddegawd ddiwethaf yn dyst gweladwy i'r tueddiad yna, wrth i gymdeithas droi'n fwy seciwlar, meddai.

Ond eto, fe wnaeth y Llywydd ein hatgoffa bod Cristnogaeth yn dal i fod â phresenoldeb cryf mewn cymdeithas. 'Er gwaetha'r gostyngiad, mae'n ffaith ryfeddol bod miliwn a chwarter o bobl Cymru'n dal i alw eu hunain yn Gristnogion. Mae'n amlwg bod miloedd di-ri o bobl nad ydynt mwyach yn mynychu addoldy yn dal i deimlo teyrngarwch tuag at grefydd fore oes trwy ddisgrifio eu hunain fel Cristnogion ar ffurflen y Cyfrifiad.'

Dyneiddwyr yn dathlu

Mae Dyneiddwyr Cymru wedi croesawu canlyniad y cyfrifiad. Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf crefyddol yn y byd bellach meddent, a dylai'r Senedd newid polisïau i adlewyrchu hynny. Mae'r dyneiddwyr yn galw am roi'r gorau i gynnal gwasanaethau crefyddol mewn ysgolion a darparu caplaniaid seciwlar mewn ysbytai. Tybed, felly, a fyddant yn ymwrthod â dathlu'r Nadolig, gan mai gŵyl ydyw i ddathlu ymgnawdoliad Duwdod nad ydynt yn credu sy'n bod?

Gwlad Gristnogol

Mae'n bosib y byddai Cristnogion Cymru'n cytuno â nhw am un peth – sef dileu hawl 26 esgob o Loegr i eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r esgobion yn rhan o broses wleidyddol sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr, er na fu hawl gan esgobion Cymreig i eistedd yno ers datgysylltu'r eglwys yng Nghymru ganrif yn ôl. Mae Lloegr yn 'wlad Gristnogol' mewn ystyr wleidyddol a chyfreithiol, gan fod yr eglwys a'r wladwriaeth wedi plethu i mewn i'w gilydd. Bydd datgeliad y cyfrifiad mai dim ond 46% o bobl Lloegr sy'n arddel Cristnogaeth yn siŵr o gynyddu'r alwad am ddatgysylltu'r eglwys yno hefyd.

Dylanwad Cristnogaeth

Fel Annibynwyr, mae goddefgarwch yn greiddiol i'n traddodiad ni. Mae rhyddid barn, caredigrwydd, moesoldeb a gofal bugeiliol yn greiddiol i ddyneiddiaeth hefyd. Ond wrth ddathlu dirywiad crefydd, oni ddylai'r dyneiddwyr gofio dylanwad llesol Cristnogaeth yn hyrwyddo'r rhinweddau hyn ers dwy fil o flynyddoedd? Ar un olwg, onid Iesu Grist gyda'i Efengyl o gariad, heddwch a thosturi oedd y dyneiddiwr mwyaf i gerdded y ddaear hon erioed?

'Mae'n eithaf tebyg bod nifer o'r rhai ddywedodd nad ydynt bellach yn dilyn unrhyw grefydd yn dal i fod o dan ddylanwad capel, eglwys ac ysgol Sul,' meddai'r Parchg Beti-Wyn James. 'Bydd rhaid i'r grefydd Gristnogol farw allan yn llwyr yng Nghymru cyn bod y dylanwad hwnnw'n darfod. Er gwaethaf y gostyngiad presennol, hyderwn na fydd hynny fyth yn digwydd.'

Alun Lenny

Rhagor o'r Cyngor

Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth

Cafwyd cyfarfod hynod fendithiol ac adeiladol o'r adran dan Gadeiryddiaeth y Parchg. Owain Llŷr Evans yng nghyfarfodydd y Cyngor diwethaf gynhaliwyd ym mis Hydref, gyda chynrychiolaeth dda o'r aelodau yn bresennol. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd y canlynol:

Panel Diogelu Cydenwadol

Cafwyd adroddiad manwl o waith y panel gan eu cadeirydd, sef Mr Emlyn Davies, a chyfeiriwyd at bedwar nod sydd ganddynt, sef:

1. ***Diweddaru'r Llawlyfr***. Nodwyd yn gyntaf fod sawl peth wedi ei ddiweddaru yn y llawlyfr. Bydd y tudalennau sydd angen eu diweddaru yn y ffeiliau yn cael eu hanfon at bob eglwys drwy'r post, a gofynnir i'r eglwysi sicrhau fod y tudalennau newydd yn cael eu gosod yn y mannau priodol o'r llawlyfr,
2. ***Cynhyrchu fideo***. Mae'r panel hefyd wedi paratoi fideo, ac os am dderbyn copi o'r fideo neu ei derbyn dros y we, rhaid cysylltu â'r swyddfa.
3. ***Creu Cynllun Hyfforddi***. Mae 9 unigolyn bellach wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddi yn enw'r Panel Diogelu. Mae cynrychiolaeth o bob enwad ymhlith y 9.
4. ***Cynnal Sul Diogelu***. Neilltuir 20 Tachwedd fel Sul Diogelu, ond yn naturiol, nid oes rhaid glynu'n ddeddfol at y dyddiad; y peth pwysicaf yw ein bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd diogelu yn ein heglwysi a bod amddiffyn a gofalu am ein gilydd yn greiddiol i'r ffydd Gristnogol, a'i neges o gyfiawnder a gobaith. Gellir gweld yr holl adnoddau drwy fynd i wefan y panel.

Argymhelliad ar hyfforddi cydenwadol

Yn ddiweddar, mae trafodaethau wedi bod yn cymryd lle rhwng yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Presbyteraidd ynglŷn â cheisio cydweithio i ddarparu cwrs fyddai'n arwain at radd mewn Diwinyddiaeth, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Y ffordd hawsaf o fynd ati i sicrhau hyn fyddai i gydweithio â Choleg y Bedyddwyr gan eu bod eisoes yn darparu cyrsiau gradd. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r enwadau ariannu swydd rhan amser i gyflawni'r gwaith hwn er mwyn sicrhau fod yr hyfforddiant yn Gymraeg, fod i'r cwrs wedd Gymreig, a bod traddodiadau'r amrywiol enwadau yn cael eu cynnwys yn y cwrs. Yn dilyn trafodaeth fanwl, cytunodd yr adran yn unfrydol i argymell bwrw ymlaen â'r trafodaethau hyn.

Diwygio dogfennau

Cytunwyd fod angen diwygio sawl dogfen, yn cynnwys y ddogfen Cynllun Arweinyddion Eglwysi, a'r ddogfen Gofalaethau Bro. Cynigwyd enw pedwar o blith aelodau'r adran i adolygu'r gyntaf o'r ddwy a dod ag argymhellion i'n sylw yn y cyfarfod nesaf, ond gyda'r ail, byddai'n rhaid cynnull aelodau o blith y pum enwad / eglwys sy'n rhan o'r ddogfen. Cynigiodd yr adran fod yr Undeb yn bwrw ymlaen i geisio cynnull cynrychiolwyr o'r enwadau / eglwysi hynny i fwrw ymlaen â'r gwaith.

Eglwysi ôl-COVID

Codwyd sawl cwestiwn, megis 'sut mae eglwysi'n dod allan o'r COVID?' ac 'I ba gyfeiriad ydan ni'n mynd?' Roedd pryder fod sawl eglwys yn dal heb gyfarfod ers y pandemig, ac o bosib y bydd yr hinsawdd economaidd yn factor arall bellach wrth ystyried cynhesu'r adeiladau ayyb. Yn sicr, mae lle i bwyllgorau bugeiliol y cyfundebau, a'r pwyllgorau cenhadol i ystyried y pwyntiau hyn, a chydweithio ag eglwysi wrth ystyried y ffordd ymlaen.

Unrhyw fater arall

Wrth dynnu tua diwedd y cyfarfod, nodwyd un mater arall i sylw'r adran o'r llawr. Nodwyd cymaint o fendith a geir o'r Dyddiau Gweinidogion, ac awgrymwyd y byddai'n syniad cynnal Diwrnod i Arweinyddion, a Diwrnod i Bregethwyr Cynorthwyol i gyd-gyfarfod.
Fel y gwelwch, cafwyd amser trafodaethau difyr ac adeiladol yn yr adran, a gweddïwn am fendith Duw ar y cyfan wrth barhau i dystio i'w enw Ef.

Carwyn Siddall

Daeth Goleuni

Arwydd clir fod y Nadolig yn agosáu yw bod goleuadau yn cael eu gosod ar ein strydoedd ac yn ein tai. Mae hyn yn addas gan fod 25 Rhagfyr yn dilyn cyfnod tywyllaf y flwyddyn. Nid addurniadau yn unig yw'r goleuadau, y mae iddynt hefyd arwyddocâd symbolaidd. Mae hanes y Nadolig yn llawn gwirioneddau ysbrydol ond ni ellir eu deall yn iawn oni bai ein bod yn sylweddoli hyn, fod y byd yn lle tywyll.

Ond sut mae'r byd yn llawn tywyllwch? Yr hyn mae'n golygu yw bod y byd yn llawn drygioni a dioddefaint enbyd. Ystyriwch y cyfnod y ganwyd Iesu iddo, roedd yn gyfnod treisgar, llawn anghyfiawnder, tlodi a digartrefedd, cyfnod lle'r oedd ffoaduriaid yn rhedeg rhag gorthrwm pwerau grymus a lle'r oedd plant yn cael eu cam-drin. Mae'n swnio'n debyg i 2022.

Ffordd arall y mae'r byd yn dywyll yw oherwydd nad oes neb yn gallu delio gyda'r drygioni a chael gwared â'r hyn sydd o'i le arnom un waith ac am byth.

Ar gychwyn ei Efengyl mae Mathew yn dyfynnu o Eseia 9: 1–2 pan ddywed, 'Mae'r bobl oedd yn byw mewn tywyllwch wedi gweld golau llachar; ac mae golau wedi gwawrio ar y rhai sy'n byw dan gysgod marwolaeth.' (Mathew 4:16)

Neges fawr y Nadolig yw nid 'fe allwn ni fel dynoliaeth greu byd sy'n llawn cyfiawnder, undod a heddwch trwy ymdrech.' I'r gwrthwyneb, rhan o neges y Nadolig yw na allwn newid ein sefyllfa trwy ein gallu ein hunain; ni all system wleidyddol, syniadaeth athronyddol, addysg, gwyddoniaeth na thechnoleg ein hachub o'n hargyfwng. Rydym angen goleuni o'r tu allan i ni ein hunain sy'n mynd i ddelio gyda'r tywyllwch sydd ynom. Duw yn unig all wneud hynny.

parhad ar dudalen 6

Yr Adran Gydenwadol

RHAGFYR 8 2022 RHIF 93

Gorwelion Newydd i Gristnogaeth21

'Gorwelion Newydd' oedd thema cynhadledd flynyddol Cristnogaeth21, a gynhaliwyd yn rhithiol eleni fore Sadwrn, 19 Tachwedd. Braf oedd gweld llond sgrin o wynebau – rhai cyfarwydd a rhai'n ymuno am y tro cyntaf.

Yn dilyn gair o groeso gan Anna Jane Evans, Cadeirydd C21, cafwyd cyfle yn ystod y defosiwn i wrando ar neges heriol Mia Mottley, Prif Weinidog Barbados, i gynrychiolwyr cynhadledd COP27 yn yr Aifft, gan wneud inni sylweddoli ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb ohonom i weithredu ar frys i geisio achub y blaned fregus hon.

Y siaradwr gwadd oedd John Roberts (BBC), ac yn ei sgwrs gychwynnol ar y testun 'Heriau'r Dydd', amlinellodd nifer o'r heriau sy'n wynebu pobl o ffydd y dyddiau hyn, gan gofio am weddi Crist mai'r nod yw bod yn un eglwys. Cyfeiriodd at yr her o geisio darganfod yr hyn sy'n gyffredin rhyngom a'r bobl rydyn ni'n anghytuno â nhw, o sicrhau cydbwysedd iachus rhwng ein hargyhoeddiadau a chwestiynu iachus, ac osgoi'r perygl o fynd i rigol ddiwinyddol saff.

Awgrymodd fod sefydliadau eglwysig, yn wyneb y dirywiad presennol, yn tueddu i ganolbwyntio ar ddefnyddio'u hadnoddau i geisio dal eu gafael yn dynn ar yr hyn sy'n weddill o draddodiadau'r gorffennol yn hytrach na chael eu trawsnewid ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at yr her o ddatblygu arweinyddiaeth addas ac addoliad sy'n cyfathrebu neges Efengyl Crist gan ddefnyddio syniadau a geirfa sy'n berthnasol i ni heddiw.

Rhannwyd yn grwpiau i drafod amrywiol heriau neges John, a gafodd ei disgrifio gan un o'r mynychwyr fel 'cawod oer – poenus, ond bendithiol'.

Yn y sesiwn nesaf, cafwyd amlinelliad o weithgarwch diweddar Cristnogaeth21, yn cynnwys y wefan ar ei newydd wedd (https://www.cristnogaeth21.cymru/) a'r tri grŵp gweithredol a sefydlwyd yn ddiweddar. Yna, rhannwyd yn grwpiau trafod yn ôl diddordeb y mynychwyr.

Mae'r grŵp Materion Cymdeithasol, dan arweiniad Dafydd Iwan a Gareth Ioan, wedi bod yn edrych ar y sefyllfa pan fydd adeiladau eglwysig yn dod ar y farchnad, rhywbeth sy'n digwydd yn bur aml y dyddiau hyn, wrth gwrs. Yn hytrach na gwerthu adeilad am y pris masnachol uchaf, trafodwyd yr angen i geisio'u defnyddio er budd y gymuned leol, lle mae'n bosib. Gall hyn olygu ffurfio partneriaethau â sefydliadau addas i ddarparu canolfan gymunedol neu dai i'w gosod ar rent i denantiaid.

Dewisodd y grŵp Undod Eglwysig, dan arweiniad Pryderi Llwyd Jones, graffu ar gyfarfodydd blynyddol yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg eleni, yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifenyddion Cyffredinol a hefyd â nifer o ieuenctid sydd â diddordeb yn y gwaith. Gwelwyd cymaint oedd yn gyffredin o fewn y cyfarfodydd hyn, ac y gallai fod yn sail i gydweithio pellach. Yn dilyn hyn, mae'r grŵp wedi cyhoeddi apêl a datganiad yn gwahodd yr enwadau i fynd ati yn ddiymdroi i sefydlu comisiwn i ystyried undod eglwysig. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i: https://www.cristnogaeth21.cymru/post/datganiad-ar-undod-eglwysig, a chroesewir ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol arferol.

Yn y grŵp Diwinyddiaeth ac Adnoddau, dan arweiniad Anna Jane Evans ac Anna Vivian Jones, ystyriwyd sut i gyfathrebu neges greiddiol y Beibl mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn berthnasol i'n dyddiau ni. Teimlid bod angen cael cyfleoedd i drafod a chyfnewid syniadau mewn ffordd agored a deunydd addoli sy'n addas i'n sefyllfa gyfoes.

Yn ei sylwadau clo, cyfeiriodd John at yr angen i ymateb ar frys i'r argyfwng cyfundrefnol sy'n ein llethu. Ychwanegodd fod angen i'r ymateb hwnnw fod yn un creadigol, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau a chan gadw mewn cof mai ein perthynas â Duw yw'r peth hanfodol. Yr her fwyaf mewn gwirionedd yw sut rydyn ni'n dangos cariad, yn 'rhoi cwtsh' i unigolion, i'r gymdeithas o'n hamgylch, ac yn wir i'r byd.

Marian Beech Hughes

Gwylnos Heddwch – Cymorth Cristnogol

Ers mis Ionawr 2021 mae cefnogwyr Cymorth Cristnogol wedi bod yn dod at ei gilydd bob mis ar Zoom i gynnal Gwylnos Heddwch. Cofrestrwyd yr wylnos gydag ACT Alliance, sy'n cynnwys dros gant o eglwysi a mudiadau Cristnogol sy'n gweithio tuag greu cymuned fyd-eang lle mae pawb o fewn creadigaeth Duw yn byw ag urddas, cyfiawnder, heddwch a pharch tuag at hawliau dynol a'r amgylchfyd.

Rydym yn un o nifer fawr o ardaloedd ledled Prydain sydd wedi cofrestru i gynnal gwylnos bob mis, ac yn falch iawn ein bod wedi medru cynnal gwylnos yn ddi-dor bob mis ers Ionawr 2021.

Mae'r cyfarfodydd hanner awr wedi bod yn amrywiol iawn: yn cynnwys adolygiadau llyfrau, profiadau personol o ymweld ag Israel a Phalesteina, cyfnodau o weddi a rhannu gwybodaeth am waith partneriaid Cymorth Cristnogol yn y rhanbarth.

Os hoffech ymuno â ni neu gynnig arwain Gwylnos Heddwch, yna cysylltwch ag: lroberts@cymorth-cristnogol.org er mwyn derbyn y ddolen i ymuno.

Beth am ymuno â ni yn ein gwylnos nesaf y Nadolig hwn i ddangos cariad a cheisio llwybr heddwch ar gyfer ein brodyr a'n chwiorydd lle mae gwrthdaro'n rhwygo bywydau?

Nos Lun, 19 Rhagfyr 2022
8 o'r gloch
Croeso cynnes i'n plith

Rhoi Gwynt yn Hwyliau'r Plygain

Mewn sawl rhan o Gymru bellach mae cryn edrych ymlaen at y gwasanaeth plygain blynyddol. Eleni, cyhoeddwyd casgliad newydd o hen garolau, *Seiniwn Hosanna*, o dan olygyddiaeth Arfon Gwilym a Sioned Webb. Ar ôl bwlch o bron i dair blynedd oherwydd y pandemig, y nod yw rhoi hwb o'r newydd i'r hen draddodiad hwn.

'Mae'r plygain wedi chwarae rhan bwysig yn hanes y diwylliant Cymraeg, a hanes y ffydd Gristnogol yn benodol,' meddai Arfon. 'Parchu'r hanes hwnnw ydi nod y plygain. Mae carolau newydd a chyfoes yn cael eu cyfansoddi drwy'r amser, wrth gwrs, ond y plygain ydi'r unig gyfle i ganu ac i glywed y carolau traddodiadol – cynnyrch cenedlaethau o feirdd a cherddorion dros amser maith.'

Aeth dros bymtheng mlynedd ers i Arfon a Sioned gyhoeddi *Hen Garolau Cymru*, ac fe werthwyd y copïau i gyd.

'Roedd hi'n amlwg i mi fod y diddordeb ar gynnydd, ym mhob rhan o Gymru a'r tu hwnt. Efo'r gyfrol bresennol, mi wnaethon ni gynnwys rhyw hanner dwsin o "ffefrynnau", ond mi wnaethon ni ymdrech fwriadol i chwilio am y carolau hynaf y gallen ni eu canfod – y rhai oedd yn cael eu gosod ar wahanol fesurau fel *Difyrrwch Gwŷr y Gogledd, Dydd Llun y Bore, Ehediad y Golomen a Ffarwel Ned Puw.* Bu'n rhaid didoli yn reit ofalus, a gadael i amryw ohonyn nhw syrthio drwy'r rhwyd os oedd y geiriau neu'r gerddoriaeth yn annhebyg o apelio yn yr oes bresennol.'

Ymhlith awduron y carolau mae Dafydd Ddu Eryri, Twm o'r Nant a Robert Davies, Bardd Nantglyn, o'r 18fed ganrif; Ellis Wynne o'r Lasynys a Huw Morys, Eos Ceiriog, o'r 17eg ganrif; Rhys Prichard (y Ficer Prichard) o'r



16eg ganrif, a Madog ap Gwallter o'r 13eg ganrif.

Yn wahanol i gasgliadau blaenorol, mae'r gyfrol yn cynnwys adran ychwanegol yn adrodd hanes y carolwyr eu hunain, yn gantorion yn ogystal â chyfansoddwyr y carolau.

'Y man cychwyn amlwg i mi oedd yr holl garolwyr hynny y cefais i'r fraint o'u hadnabod yn Sir Drefaldwyn pan es i yno i fyw yn y 70au. Ro'n i'n awyddus iawn i gydnabod eu cyfraniad. Teimlwn fod yn rhaid i rywun gofnodi eu hanes, cyn i'w henwau fynd yn angof. Ond fe ehangodd yr adran wedyn i gynnwys braslun o hanes y plygain yng ngweddill Cymru hefyd.'

Meddai Sioned: 'Fy ngwaith i oedd rhoi trefn ar y gerddoriaeth, ac ro'n i'n ymwybodol iawn o'm cyfrifoldeb. Dim ond yn yr ugain mlynedd dwytha dwi wedi dod yn gyfarwydd efo'r traddodiad, ond ers hynny dwi wedi canu'n gyson mewn plygeinie, felly dwi wedi dod i nabod yr ochr gerddorol yn reit dda, ac yn sylweddoli fod yn rhaid trin y carolau efo parch.

'Efo'r carolau yn y gyfrol yma, weithiau dim ond y geiriau ac enw'r mesur oedd gen i, dro arall un llinell o alaw, ac roedd yn rhaid cyfansoddi'r harmonïau. Dro arall roedd o'n fater o olygu'r trefniannau oedd eisoes yn bod, eu cywiro, a'u gosod mewn cyweirnod call! Ac er bod hwn yn waith manwl, roedd yn bleser ac yn fraint.'

Er mwyn cyhoeddi'r gyfrol hon cafwyd cefnogaeth ariannol Cymrodoriaeth Eisteddfod Powys ('Cronfa Llanbryn-mair'). Golygodd hynny fod modd cyhoeddi'r gyfrol yn breifat. Y bwriad yw defnyddio unrhyw elw tuag at sefydlu gwefan newydd www.plygain.org, sy'n cynnwys dyddiadur o'r gwasanaethau mewn gwahanol rannau o'r wlad, yn ogystal â chefndir a hanes y traddodiad.

Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol ynglŷn â'r plygain yw'r ffordd y mae'r arferiad wedi lledu i gymaint o wahanol ardaloedd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Ar ddechrau'r 70au, rhywbeth yn perthyn i'r canolbarth yn unig oedd hwn (ac eithrio ambell wasanaeth unigol mewn llefydd fel Lloc yn Sir Fflint a Llanllyfni yn Nyffryn Nantlle), a cychydig iawn o sôn oedd amdano y tu allan i'r ardaloedd penodol hynny. Ond bellach mae mwy o wasanaethau yn cael eu cynnal y tu allan i'r hen gadarnle nag o'i fewn. Cyn cychwyn y tymor plygain eleni yr oedd dros 40 o wasanaethau wedi eu cadarnhau, mewn llefydd mor amrywiol â Llanwnda, Nantgaredig, Gorseinon, y Fenni, Caerdydd, a hyd yn oed Llundain.

Ar ol hirlwm y Covid, y gobaith dros gyfnod Nadolig 2022 yw y bydd modd ailgynnau'r brwdfrydedd a welwyd ym myd y blygain cyn y Clo Mawr.

Cyswllt rhwng RAF, y Fali, a BAE Systems â bomio yn Yemen

Ddydd Gwener, 2 Rhagfyr, am 3 o'r gloch, daeth aelodau Cymdeithas y Cymod ac eraill yn y mudiad heddwch ynghyd yn RAF y Fali i dynnu sylw at BAE Systems ac allforio arfau i Saudi Arabia. Roedd hynny'n nodi dechrau ymgyrch deufis i hysbysu dinasyddion Cymru o'r rhyfeloedd byd-eang sy'n cychwyn ar stepen ein drws gyda'r cyflenwad o arfau a systemau o'r Deyrnas Gyfunol ar gyfer y rhyfel yn Yemen.

Mae'r Gymdeithas yn cefnogi'r Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) yn ei achos cyfreithiol i herio llywodraeth y Deyrnas Gyfunol am roi trwyddedau allforio i Saudi Arabia.

Yn ôl yr ymchwil a gynhaliwyd gan yr Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau, mae nifer o safleoedd yng Nghymru'n cynhyrchu arfau a systemau sy'n cael eu defnyddio i fomio Yemen. Mae'r rhain yn cynnwys BAE Systems yn RAF, y Fali, ac yn Glascoed, Brynbuga; Raytheon sydd wedi ei leoli ym Mrychdyn; FAUN Trackway yn Llangefni, ac Airbus yng Nghoedcernyw, Casnewydd.

Mae cysylltiad BAE yn mynd tu hwnt i gyflenwi cyfarpar: mae gan BAE 6,500 o staff yn Saudi Arabia sy'n cefnogi gallu gweithredol lluoedd arfog Saudi, hynny yw, yr ymosodiadau ar Yemen.

Aeth yr ymgyrchydd Arabaidd Ameen Nemer i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol BAE yn 2019. Adroddodd: 'I bobl yn Saudi Arabia a Yemen, mae'n amhosibl gwahaniaethu rhwng y bobl sy'n gwerthu'r arfau a'r rhai sy'n eu defnyddio.'

Yn ôl Awel Irene, cydlynydd Cymdeithas y Cymod, 'Ein nod yn y mudiad heddwch yw fod Cymru yn genedl heddwch, lle mae symudiad oddi wrth filitariaeth at economi sy'n cael ei yrru gan ynni adnewyddol a diwylliant wedi ei adeiladu ar werthoedd di-drais.'

Mae'r Gymdeithas yn apelio ar aelodau eglwysi Cymru i ymuno â ni. Mae angen pobl i wneud gwaith ymchwil, cyfieithu, rhannu'r neges gyda chyfeillion, ysgrifennu at eu cynrychiolwyr gwleidyddol a'u canghennau undeb llafur a chyfrannu'n ariannol.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Awel Irene, 10 Garreg Frech, Llanfrothen, Gwynedd, LL48 6BZ neu ar ebost: awel.heddwch@gmail.com neu ar y ffôn : 01766 772788

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

11 Anawsterau Cyfoeth

Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 7, t. 56

Darllen: Genesis 13:1–7

Yn dilyn cyfnod yn yr Aifft, mae pennod 13 yn disgrifio Abraham a'i deulu yn dychwelyd, yn gyntaf i ardal y Negef, yn ne gwlad yr addewid, ac yna i Fethel. Fel yn achos holl fywyd Abraham, mae'r bennod hon am osod allan yr amrywiaeth ymateb sy'n ei nodweddu. Os oedd wedi anghredu Duw drwy fynd i'r Aifft a dweud celwydd am ei wraig, yn y bennod yma mae'n credu. Rydym yn cael esiampl o'i barodrwydd i ymddiried yn Nuw yn hytrach na cheisio'i ddiogelu ei hun.

Yn adnod 9 mae'n barod i ganiatáu i Lot gael y dewis gorau o'r tir i arbed cynnen, er y byddai hyn yn golygu ei fod ef ei hun ar ei golled. Os ystyriaeth am ei les economaidd barodd iddo fynd i'r Aifft, wedi dod yn ôl mae'n ddibris o'i les economaidd gan ymddiried y byddai addewid Duw yn ei ddiogelu. Fel y mae pethau'n troi allan, cawn weld na fu hyn yn anfantais o gwbl iddo, gan fod adnodau 14–17 yn tystio i addewid bellach a llawnach gan yr Arglwydd. Os oedd addewid am wlad ac am blant cynt, bellach bydd yr 'holl dir' yn eiddo iddo a bydd ei 'had fel llwch y ddaear; os dichon neb rifo llwch y ddaear, yna fe rifir dy had di'.

Gyda hyn mewn golwg, tebyg ei bod yn briodol inni roi ychydig o ystyriaeth i'r berthynas rhwng bendith a chyfoeth yn Genesis yn arbennig, ac yn y Beibl yn gyffredinol. Mae'n siŵr eich bod wedi clywed am 'efengyl iechyd a chyfoeth' (*health and wealth gospel*), neu wedi gweld cyfeiriadau ati. Er bod esiamplau amlwg ar y teledu ar rai o'r sianeli sy'n cael eu ffrydio o'r Unol Daleithiau, mae yna awgrymiadau clir o'r math hwn o syniad yng nghefn meddwl llawer ohonom. Yn fras, mae'r ddadl yn awgrymu: os byddwn ni'n ffyddlon i Dduw, yn dilyn Iesu yn gydwybodol, yna fe ddylem ddisgwyl y bydd bendithion materol, pethau fel arian ac iechyd, yn canlyn hynny.

Un o'r pethau mwyaf diddorol wrth wylio Cwpan y Byd dros y dyddiau diwethaf yw'r lluniau o'r dorf pan mae'r tîm yn chwarae. Tybed ydych chi sylwi cymaint o luniau sydd yna o 'ddwy law yn erfyn'? Rhaid bod y bobl yma, beth bynnag eu crefydd a hyd yn oed os nad oes ganddynt grefydd o gwbwl, yn gweddïo am lwyddiant, yn gweddïo y bydd pethau'n troi allan o blaid eu gwlad. Yr anhawster amlwg yw fod cefnogwyr y ddau dîm yn gwneud hynny.

Er mai esiampl ddigon gwamal yw hon, eto, faint ohonom ni sy'n rhyw feddwl, beth bynnag am ein cerddediad ysbrydol o ddydd i ddydd, fod bendithion materol yn rhyw ffynnon y medrwn ei hagor? A beth wedyn? Mae yna gerdded ffyddlon yn achos rhai, cerddediad anghyson yn hanes eraill; ac eto, does dim gwarant o 'lwyddiant' materol. Yn wir, byddwn yn darganfod, fel yn achos awdur Llyfr y Pregethwr: 'Y mae'r doeth â'i lygaid yn ei ben, ond y mae'r ffôl yn rhodio yn y tywyllwch; eto canfûm mai'r un peth yw tynged y ddau' (2:14). 'Unwaith eto, dyma a sylwais dan yr haul: nid y cyflym sy'n ennill y ras, ac nid y cryf sy'n ennill y rhyfel; nid y doethion sy'n cael bwyd, nid y deallus sy'n cael cyfoeth, ac nid y rhai gwybodus sy'n cael ffafr. Hap a damwain sy'n digwydd iddynt i gyd.' (9:11)

Ond mae yna gysylltiad rhwng bendith Duw ac elw materol yn Genesis. Sylwch, er enghraifft, ar dystiolaeth gwas Abraham yn 24:35, neu ar lwyddiant Isaac yn 26:12–13. Mae cyfoeth eithriadol yn cael ei roi i'r patriarchiaid, ac mae'n amlwg nad oedd Abraham yn dlawd yn faterol fel un oedd dan fendith Duw. Gyda llaw, o ran tlodi, mae'n bwysig cadw mewn cof na ddylai neb o bobl Dduw fod mewn tlodi eithriadol, gan mai cyfrifoldeb y gweddill yw sicrhau eu buddiannau materol. Mae hon yn thema barhaus drwy'r Beibl, ac yn cael ei chrynhoi yn Deuteronomium 15:4: 'Ddylai neb fod mewn angen yn eich plith chi'. Mi fydd yna bobl 'gyfoethog' yn yr Eglwys yn wastad ond, fel Solomon, byddant yn cydnabod Duw am ei ddaioni drwy fod yn hael: 'Oherwydd pwy wyf fi a'm pobl i fedru rhoi o'n gwirfodd fel hyn? Canys oddi wrthyt ti y daw popeth, ac o'th eiddo dy hun y rhoesom iti.' (1 Cronicl 29:14)

Wrth ystyried y cysylltiad rhwng bendith a chyfoeth materol yn Genesis, mae'r esboniwr Derek Kidner yn nodi: 'Mae bendithio'r patriarchiaid mewn modd eithriadol efallai'n gysgod o'r fendith gyffredinol sy'n cael ei haddo iddynt yn y diwedd. Wrth ystyried y felltith sydd wedi ei hamlygu rhwng penodau 3 ac 11, mae'r addewid a'r bendithio hyn yn rhag-weld y dydd pan fydd y felltith yn cael ei chodi oddi arnom, pan fydd y cwymp yn cael ei ddad-wneud.'

O ran rhyw fath o reol felly, mae'n amlwg fod yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr sy'n cael eu rhoi i'r patriarchiaid yn dod gyda bendithion amlwg. I ni, y mae pob bendith ysbrydol yn eiddo inni yn awr yng Nghrist, ac y mae ei dlodi Ef wedi ein cyfoethogi ni'r tu hwnt i bob mesur. Fel y nodais, bydd amlygiad o'r cyfoeth materol hwn ym mywyd yr Eglwys i bwrpas gofalu ac elusen, fel yn Iago 2:15–16 ac 1 Ioan 3:17. Ond ni fydd iechyd a chyfoeth yn cael ei sylweddoli nes bydd popeth yn cael ei wneud o'r newydd yng nghreadigaeth newydd Iesu (Datguddiad 7:15–17).

- Pa mor barod fyddwch chi i gysylltu iechyd a cyfoeth materol â 'ffyddlondeb' ysbrydol? Darllenwch a thrafodwch eiriau Iesu yn Ioan 9:1–3.
- Mae haelioni yn nodweddu bywyd yr Eglwys Fore, fel y gwelwn yn Actau 2:44–5. Pa ffyrdd y dylech chi fel unigolyn ac y dylai eich eglwys eu defnyddio er sicrhau nad oes neb mewn angen?
- Darllenwch emyn 313 yn *Caneuon Ffydd*. Sut y dylai gwybod ble mae'r 'cyfoeth gorau' effeithio ar ein hagwedd ni at bob cyfoeth arall?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 11 Rhagfyr
Dim rhaglen

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 11 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp
Bydd Elin Manahan Thomas yn bwrw golwg ar rai o'n carolau mwyaf poblogaidd sy'n seiliedig ar alawon traddodiadol

Sul, 11 Rhagfyr, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Cadi Gwyn, Caernarfon

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

George Lewis (1763-1822)

Dyma ran gyntaf erthygl Gwilym Tudur am y diwinydd George Lewis.

Eleni, rydym yn nodi daucanmlwyddiant marwolaeth Dr George Lewis. Er nad yw wedi cael yr un sylw a'i gyfoeswr enwog Thomas Charles o'r Bala, George Lewis oedd un o ddiwinyddion efengylaidd amlycaf Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ef oedd awdur yr esboniad cyflawn Cymraeg cyntaf ar y Testament Newydd (1802–29) a daeth ei gyfrol boblogaidd o ddiwinyddiaeth systematig, *Drych Ysgrythyrol* (1797) yn brif werslyfr y colegau diwinyddol Cymraeg. Fel prifathro Athrofa'r Annibynwyr yn Wrecsam, Llanfyllin a'r Drenewydd, hyfforddodd genhedlaeth bwysig o weinidogion o'r diwygiwr cymdeithasol SR, Llanbrynmair (1880–85) i'r cenhadwr i Fadagascar, David Griffiths (1792–1863). Nid oes syndod fod un ysgolhaig wedi disgrifio Lewis fel 'prif ladmerydd a dehonglydd Calfiniaeth ... yn ei ddydd.'

Cefndir

Ganwyd George Lewis mewn bwthyn o'r enw 'Y Coed' ger Tre-lech, Sir Gaerfyrddin ym 1763. Gan mai eglwyswraig selog oedd ei fam, trwy'r Eglwys Sefydledig y derbyniodd ei addysg gynnar a hynny gan ddau glerigwr Methodistaidd: John Pritchard, ficer Tre-lech a Thomas Evans, curad Llanddowror. Er mai eglwyswyr oedd ei athrawon cynharaf, Annibynwyr oedd ei athrawon nesaf. Y cyntaf oedd Owen Davies (1719–92), gweinidog yr eglwys Annibynnol yng Nghapel-y-graig, Tre-lech a'r ail oedd John Griffiths (1731–1811), gweinidog Rhydyceisiaid a gadwodd ysgol i blant yng Nglandŵr, Sir Benfro. Heb os, yr ail athro gafodd y dylanwad mwyaf ar Lewis. Diwinydd Calfinaidd oedd Griffiths wnaeth gyhoeddi cyfieithiad o Gatecism Byrraf Westminster ym 1766. Trwy'r gŵr hwn y daeth Lewis yn gyfarwydd â'r Piwritaniaid a'u Calfiniaeth efengylaidd am y tro cyntaf.

Tröedigaeth

Er gwaetha'r addysg Gristnogol hon, ni chafodd Lewis dröedigaeth tan ei arddegau. Yn ôl un awdur, 'nid oedd efe eto wedi ei ddal gan argyhoeddiad am ei gyflwr fel pechadur ger bron Duw' hyd nes y daeth pregethwr teithiol dienw i bregethu i Dre-lech gan ddod ag adfywiad i eglwysi'r ardal. Ar ôl dod i adnabod


DRYCH
YSGRYTHYROL.
NEU
GORPH
O
DDIFINYDDIAETH.
YN CYNNWYS
EGLURHAD A PHRAWF
O AMRYWIOL GANGHENNAU
YR ATHRAWIAETH
SYDD YN OL
DUWIOLDEB.
YN CHWECH RHAN.
Gan George Lewis,
GWEINIDOG YR EFENGYL YN LLAN-UWCH-LLYN.
Caerlleon:
ARGRAPHWYD GAN JONES A CRANE.
1797.

Crist fel Gwaredwr, dechreuodd ddarllen y Testament Newydd ynghyd â *Holwyddoreg yr Ymneilltuwyr Protestannaidd* gan Samuel Palmer (1741–1813). Trwy'r gyfrol hon, daeth Lewis yn Annibynnwr o argyhoeddiad gan adael yr Eglwys ac ymaelodi yng Nghapel-y-graig ym 1779.

Galwad

Yn fuan wedi iddo ymaelodi yno, profodd Lewis alwad i'r weinidogaeth. Er hynny, cyn hyfforddi yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin, roedd yn rhaid iddo dderbyn addysg bellach, yn arbennig ym maes y Clasuron. Treuliodd felly ddwy flynedd yn ysgol David Dafis (1745–1827), Castellhywel, ym Mhlasbach, Ciliau Aeron. Er na chafodd diwinyddiaeth Ariaidd Dafis effaith ar Galfiniaeth uniongred Lewis, trwy'r athro hwn y daeth yn gyfarwydd â Lladin a Groeg. Erbyn diwedd ei gyfnod yno, roedd yn gallu darllen Virgil yn Lladin a Xenophon yn yr iaith Roeg. Cafodd yr addysg hon ddylanwad pwysig ar Lewis oherwydd cafodd gweithiau Lladin Awstin ac Athanasiws effaith ar ddiwinyddiaeth ei *Ddrych*.

Caernarfon

Ar ôl tair blynedd fel myfyriwr diwinyddol yng Nghaerfyrddin, derbyniodd alwad i weinidogaethu ar yr eglwys Annibynnol yng Nghaernarfon. Bu'r cyfnod hwn yng Nghaernarfon yn un arwyddocaol. Yn Eglwys Gadeiriol Bangor ym 1787, priododd Lewis â'i wraig, Jane Jones, a ganwyd tri o blant iddynt: George, William a Sara. Tyfodd yr eglwys o dan ei weinidogaeth ac ym 1791 bu'n rhaid adeiladu capel Pendref i ddal y gynulleidfa. Er hynny, roedd y cyfnod hwn yng Nghaernarfon yn un anodd gan fod yr awdurdodau Anglicanaidd yn gwrthwynebu Lewis a'i eglwys. O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn, ysgrifennodd Lewis lythyr at y gweinidog a'r daearyddwr Americanaidd Jedediah Morse (1761–1826) yn mynegi ei ddymuniad i ymfudo gyda'i deulu i Loegr Newydd. Yn ei llythyr mae Lewis yn egluro pam ei bod hi mor anodd byw fel Annibynnwr efengylaidd yng Nghymru a pham fod America yn wlad mor ddelfrydol. Roedd yn dyheu am gael dianc o Gaernarfon i Philadelphia.

Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Daeth Goleuni – parhad

Tywysog Heddwch

Dywed yr adnodau yn Eseia fod y goleuni wedi dod, 'Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni.' Yn y plentyn hwn fe ddaeth goleuni sy'n delio gyda'r tywyllwch. Disgrifir y plentyn gyda phedwar teitl sy'n darlunio Duw, sef, 'Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch.' (Eseia 9:6) Oherwydd mae'r plentyn arbennig hwn a anwyd mewn gwendid a thlodi yn Dduw ac yn ddyn. Mae Ef wedi dod yn oleuni i drechu'r tywyllwch sydd wedi cau amdanom fel dynoliaeth.

'Daeth Crist i'n byd o llawenhawn.' Pan fu farw Iesu ar y groes dros ein pechodau daeth tywyllwch trwy'r wlad i gyd (Math. 27: 45) Aeth Goleuni'r Byd i ganol y tywyllwch er mwyn dod a goleuni hardd cariad a chyfiawnder Duw inni. (1 Pedr 2:9)

Ni allwn ddeall arwyddocâd y Nadolig heb inni yn gyntaf sylweddoli na allwn achub ein hunain nac adnabod ein hunain heb oleuni gras Duw yn Iesu. Dyma'r gwirionedd sylfaenol sy'n allwedd i ddeall arwyddocâd tragwyddol y Nadolig.

Barn Annibynnol

'y mae fy nghwpan yn llawn'

Mae hi'r bore wedi'r noson cynt, fel maen nhw'n ddeud! Erbyn hyn, fe wyddon ni fod Cymru wedi gorffen ar waelod Grŵp B yng Nghwpan y Byd. Efallai eich bod yn falch o gael diwedd ar yr holl sôn am bêl-droed. Neu efallai eich bod yn siomedig fod yr antur a'r freuddwyd ar ben – am y tro!

Dwi'n hoffi pêl-droed a dwi wedi bod wrth fy modd efo'r cynnwrf a'r 'heip'. Mae gennym ni het bwced ar y maes ac mae murlun newydd o Gareth Bale wedi ymddangos yn y dre. Ond mae'r holl ddathlu wedi bod yn fwy na phêl-droed. Am y tro cyntaf ers 1958, dyma gyfle i'n cenedl fach gael ei gweld a'i chydnabod o ddifri ar lwyfan ryngwladol anferthol, a tydy hynny ddim yn digwydd yn aml. Ac os mai pêl-droed oedd y cyfrwng i roi'r cyfle yna i ni, wel gwych ynde? Tra bod y mwyafrif o bobl yn anghyfforddus â'r symiau anferthol o arian sy'n rhan o'r gêm broffesiynol, ni ellir gwadu effaith cadarnhaol pêl-droed cymunedol yn ein trefi a'n pentrefi. Mi fydda i wrth fy modd ar fore Sadwrn yng Nghaernarfon wrth basio gemau ac ymarfer ar hyd a lled y dref; mae'n ffordd wych i bobl ifanc gymdeithasu a chael ymarfer corff.

Clwb Cae Gwyn

Pêl-droed oeddwn i am ei chwarae pan oeddwn i'n blentyn, ond dim ond pêl-rwyd oedd genod yn cael chwarae yng Nghaernarfon yng nghanol yr 80au. Pan gychwynnwyd clwb newydd; Cae Gwyn yn 1985, roedd fy mrawd Peredur a'i ffrindiau'n llawn cyffro. Roeddwn i'n ysu i gael bod yn rhan o'r tîm, a chafodd Lowri Morgan, fy ffrind a mi yr hawl i ymarfer efo'r tîm bob bore Sadwrn. OND, doedd genethod ddim yn cael chwarae mewn gêm go iawn – dychmygwch y fath beth! Dwi ddim yn meddwl fy mod i mor hen â hynny – ond mae'n teimlo fel sefyllfa o oes yr arth a'r blaidd! Mae gan genod Caernarfon ddigon o gyfle i chwarae pêl-droed erbyn hyn. Mae timau oed cynradd yn cael bod yn gymysg ac mae timau ieuenctid arbennig yng Nghlwb Pêl-Droed Caernarfon. Dwi reit eiddigeddus pan fyddai'n gweld genod y dre yn eu kit gwyrdd a melyn a'u stŷds, mi faswn i wedi gwneud unrhyw beth i gael pâr o stŷds!

Gyda'n gilydd yn gryfach

Ond yn ôl at Gwpan y Byd. Wrth gwrs, roedd y canlyniadau'n siomedig, ac efallai fod mawredd y digwyddiad wedi chwarae rhan mewn tawelu'r ddraig ryw fymryn. Mi fydd yna hen ddigon o ddadansoddi a beirniadu mae'n debyg, ond mae'n anhygoel ein bod wedi cyrraedd Qatar. Mae ennill yn bwysig mewn chwaraeon, wrth gwrs. Ond dwi'n credu mai'r hyn mae Cymdeithas Pêl-Droed Cymru wedi ei ddangos i ni ydy fod pêl-droed hefyd yn fwy na hynny. Mae'r gymdeithas wedi llwyddo i ddangos fod yr ymdeimlad yna o berthyn yn hanfodol; gyda'n gilydd rydan ni, wrth gwrs yn gryfach. Maen nhw wedi'n hatgoffa fel cenedl fod dealltwriaeth o'n hanes, ein diwylliant a'n hiaith yn chwarae rhan bwysig o sut ydan ni'n symud ymlaen. Roedd arwyddocâd cyhoeddi tim Cwpan y Byd yn neuadd y gweithwyr Tylorstown, ei hun, yn gydnabyddiaeth o ran hanfodol cymunedau llawr gwlad Cymru yn y peiriant pêl-droed rhyngwladol!

O Qatar i Fethlehem

Roedd y Sul diwethaf yn Sul cyntaf tymor yr Adfent; yn atgoffa'r cefnogwyr pêl-droed yn ein plith ei bod yn amser i ni droi'n golygon o Qatar i Fethlehem! Thema cannwyll gyntaf yr Adfent ydy Gobaith. Roedd cefnogwyr Cymru'n cychwyn twrnamaint Cwpan y Byd yn llawn gobaith, ond neithiwr cafodd y gobaith hwnnw ei chwalu. Ond mae'r gobaith sydd i ni yng Nghrist yn obaith na ellir ei chwalu. Roedd yr Apostol Paul yn hoff o ddefnyddio athletau fel enghraifft o sut agwedd dylai Cristnogion ei gael tuag at ddilyn Crist; ymdrechu 100%, ymarfer, bod yn ddisgybledig. Roedd enillwyr athletau cyfnod Paul yn ennill torch yn goron – ond torch a fyddai'n gwywo maes o law. Mae Paul yn ein hatgoffa yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid, ein bod yn ymdrechu er mwyn cael coron fydd yn para am byth.

Mae ein coron a'n gobaith ni felly yn wahanol i'r hyn a geir gan y byd. Wrth gychwyn ein taith i Fethlehem eleni eto, cawn ein hatgoffa y byddwn yn plygu o flaen brenin gwahanol; brenin sydd â theyrnas wahanol i deyrnasoedd y byd. Paratown i groesawu ein Meseia; Arglwydd ein gobaith.

Mererid Mair

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

EGLWYSI ANNIBYNNOL: GLANDWR, CEFNYPANT, HEBRON, NEBO EFAILWEN, LLWYNYRHWRDD TEGRYN, SIR BENFRO

Y mae'r eglwysi uchod yn gwahodd ceisiadau am weinidog rhan amser.

Am fanylion pellach cysyllter â:
Bethan Hinde
Garth, Y Glôg, Sir Benfro
SA36 0ED.

Ffôn: 07920 018203 neu e bost:
beth.hinde@gmail.com

Eglwysi Cynulleidfaol Dwyieithog Penybont a Threfgarn Owen Sir Benfro

Gyda'r cyhoeddiad fod ein gweinidog y Parchg Geoffrey Eynon yn ymddeol fis Gorffennaf nesaf, wedi 46 mlynedd yn yr ofalaeth, rydym yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser.

Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys, neu grŵp o eglwysi yn y cyffiniau, sydd â diddordeb mewn ystyried ymuno â'r ofalaeth i gysylltu â ni.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â:

Mrs Haulwen Warlow, Ysgrifennydd yr Ofalaeth 01437 563306
haulwen.warlow@btinternet.com

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 /**
0781 751 9039
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Derbyn

Hyfrydwch mawr ar brynhawn Sul 13 Hydref oedd derbyn Lisa i'r gorlan fel aelod yn Saron, Creunant. Oedfa o lawenydd oedd hi gyda'r gweinidog William Rhys Locke yn arwain a'r ysgrifennydd, Delyth, yn rhoi'r neges ar thema 'Goleuni'. Wedi'r oedfa, lle y dathlwyd Bwrdd yr Arglwydd, cafodd pawb amser i sgwrsio dros ddisgled a theisen flasus. 'Amazing Grace, how sweet the sound, that saved a wretch like me!' Diolchwn iddo!

DARLLENATHON Y TŶ CROESO

Apêl ddiweddaraf Tŷ Croeso, Bethlehem Newydd, Pwlltrap, Sanclêr oedd codi arian ar gyfer Llyfrau Llafar Cymru. Mae'n costio tua £50,000 i gynnal y gwasanaeth yn flynyddol. Mae nifer o'n haelodau yn dioddef o nam ar eu golwg ac yn ddibynnol ar y ddarpariaeth o'r CDs o lyfrau. Mae nifer hefyd yn gwirfoddoli darllen yn rheolaidd.

Penderfynwyd cynnal Darllenathon er mwyn codi arian. Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r capel, eglwysi a chapeli eraill yr ardal ynghyd â chymdeithasau ac aelodau o'r gymuned i ddod i ddarllen ac fe baratowyd ffurflenni noddi ar gyfer y rhai oedd yn mynd i ddarllen yn ystod y dydd. Darllen o Lyfr y Salmau a'r Efengylau a wnaethpwyd o 10.00 tan 3.30 y prynhawn!

Cyflwyno siec i Rhian Evans, Llyfrau Llafar Cymru, y siaradwraig wadd yn Swper Darllenathon Cymdeithas Tŷ Croeso

Gwahoddwyd pawb i ddod i wrando neu i wirfoddoli gweini te a choffi a phice ar y maen. Daeth aelodau'r capel ac o'r gymuned i wrando, a rhai'n dychwelyd am yr eildro. Cafwyd diwrnod bendithiol iawn a llwyddwyd i godi dros £1500 i Lyfrau Llafar Cymru.

Diolch i bawb am y gefnogaeth a'r holl gyfraniadau hael ddaeth i law.

Annalyn Davies, Swyddog Cymunedol Tŷ Croeso

Maer tref Sanclêr, y Cynghorydd Keith Major gyda rhai o'r darllenwyr a'r gwirfoddolwyr

Heol Awst, Caerfyrddin

Y Gymdeithas Ddiwylliadol: Gan nad oeddem wedi cyfarfod fel cymdeithas ers y clo mawr, roeddem wedi penderfynu cyfarfod am ginio cynhaeaf ar ddydd Mercher, 26 Hydref. Felly, daeth deugain ohonom, sef aelodau o eglwysi Heol Awst, Elim Ffynnonddrain, Smyrna Llangain a rhai ffrindiau eraill, at ein gilydd yng ngwesty'r Hebog yng Nghaerfyrddin i fwynhau cinio gyda'n gilydd. Cawsom brynhawn wrth ein bodd yn sgwrsio a thrafod gyda ffrindiau nad oeddem wedi eu gweld – heblaw o fewn muriau'r capel – ers bron i dair blynedd. Mae ein diolch yn fawr iawn i Olga Williams (cyntaf ar y chwith yn y llun) ein hysgrifenyddes, am drefnu'r cyfan mor hwylus a gwneud yn siŵr fod pawb wedi cael amser da.

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.